

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol 18 Ebrill 2026

Adroddiad Cyffredinol

Y diffiniad o Aelodaeth Sylfaenol:

Dyma'r lefel broffesiynol sylfaenol i'r rhai sy'n gwneud gwaith cyfieithu mewn amrywiaeth o feysydd cyffredinol ac yn trafod meysydd mwy arbenigol o bryd i'w gilydd. Disgwylir i'r safon gyfateb i waith cyfieithydd sydd ar ddechrau ei yrfa ac yn gweithio dan arolygiaeth cyfieithydd profiadol ers blwyddyn o leiaf. Disgwylir iddo fedru cyfieithu deunydd darllen cyffredinol yn weddol ddidrafferth. Dylai feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gefndir diwylliannol y ddwy iaith.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Tud. 2

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Tud. 7

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 14

Llwyddo: 3

Llwyddodd tri ymgeisydd ar y lefel Sylfaenol y tro hwn. Calonogol oedd gweld bod sawl ymgeisydd arall yn agos at llwyddo ac wedi cyflwyno gwaith o safon uchel mewn rhai manau. Yn anffodus, nid oedd yr ymgeiswyr hyn wedi cynnal y safon ym mhob rhan. Er bod y darnau'n heriol, nid oeddent yn annhebyg i'r math o waith y byddai disgwyl i gyfieithydd ar y lefel hon ymgymryd ag ef o ddydd i ddydd. Gydag ychydig mwy o ofal a thrwy reoli amser yn well, byddai'r ymgeiswyr hynny yn sicr yn gallu llwyddo.

Erthygl am fanteision cyd-ganu oedd dan sylw yn y darn cyntaf ac erthygl am effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar y Deyrnas Unedig oedd dan sylw yn y llall. Roedd rhai brawddegau hir ac amlgymalog yn y ddau ddarn ond cafodd sawl ymgeisydd hwyl arni gan gyfieithu'n glir ac yn gywir, megis:

...how people who sing together can develop a powerful sense of social cohesion...

...sut y gall y rhai sy'n cyd-ganu feithrin ymdeimlad cryf o gydlynid cymdeithasol...

Research has show that complete strangers can forge unusually close bonds after singing together for an hour.

Mae ymchwil wedi dangos bod dieithriaid llwyr yn gallu meithrin cysylltiadau anarferol o agos ar ôl canu gyda'i gilydd am awr.

Nearly a decade later, the evidence is overwhelming: Brexit has been a disaster for the UK's economy, society, and international standing.

Bron i ddegawd yn ddiweddarach, mae'r dystiolaeth yn gwbl eglur: mae Brexit wedi bod yn drychineb i statws rhyngwladol, cymdeithas ac economi'r DU.

London, once Europe's financial hub, has lost thousands of jobs in banking and financial services, and the economic costs are staggering.

Mae Llundain, a fu gynt yn ganolbwynt ariannol Ewrop, wedi colli miloedd o swyddi o fewn gwasanaethau bancio a chyllid, ac mae'r gost economaidd yn syfrdanol.

Yn anffodus, roedd rhai ymgeiswyr yn cadw'n rhy dynn at y gwreiddiol gan lunio cyfieithiadau trwsgl. Er enghraifft:

...endorphins associated with pleasure, wellbeing and the suppression of pain.

...endorffinau sy'n gysylltiedig â phleser, llesiant a gostegiad poen.

The introduction of customs checks and rules of origin requirements has permanently diminished trade efficiency...

Mae cyflwyniad gwiriadau trethu a gofynion rheolau tarddiad wedi lleihau masnach effeithiol yn barhaol...

Gellir gweld yn y ddwy enghraifft uchod bod enwau, sef '**gostegiad**' a '**cyflwyniad**', wedi'u defnyddio yn lle berfenwau sy'n swnio'n annaturiol yn y Gymraeg. Byddai '**cyflwyno**' a '**gostegu**' wedi bod yn llawer mwy naturiol yn yr achosion hyn.

Cystrawen slafaidd arall a welwyd oedd cynnwys '**o**' yn y Gymraeg i gyfleu '**of**'. Er enghraifft:

...the powerful effects of singing...

...yr effeithiau pwerus o ganu...

...there are clear physical effects for the lungs...

...ceir buddion corfforol amlwg o ganu ar yr ysgyfaint...

Nid oes angen yr '**o**' yn y Gymraeg ac mae'r ystyr yn niwlog yn yr ail enghraifft o'i chynnwys.

Elfen arall a arweiniodd at frawddegau chwithig oedd arddodiaid. Syndod oedd gweld nad oedd sawl un yn gwybod mai 'ar' sy'n dilyn 'effeithio' ac mai 'at' sy'n dilyn 'rhyfeddu'. Cafwyd sawl enghraifft o '**rhyfeddu ar**' a hepgorodd rhai ymgeiswyr yr arddodiad yn gyfan gwbl.

Yn yr un modd ag arholiadau blaenorol, cafwyd tipyn o drafferth ac ansicrwydd yn ymwneud â'r amhersonol. Defnyddiodd rhai ferf trydydd person yn lle'r ffurf amhersonol:

...singing has been found to bring a wide range of benefits...

...canfu bod canu'n rhoi ystod eang o fanteision...

It has been found to improve people's heart rate...

Darganfu ei fod yn gwella curiad calon...

Y ffurfiau amhersonol cywir yw 'canfuwyd' a 'darganfuwyd'.

Ac i'r gwrthwyneb, defnyddiwyd y ffurf amhersonol pan oedd angen berf trydydd person, sef 'dengys', yn yr enghraifft ganlynol:

Research has shown that complete strangers...

Dangosir ymchwil fod unigolion sy'n hollol ddieithr...

Mae'r gwallau hyn naill ai'n newid yr ystyr neu'n creu brawddegau lletchwith ac annealladwy, felly mae angen cymryd gofal bob tro yn hyn o beth. Yn ogystal, rhaid bod yn ofalus wrth gyfleu elfennau bach, fel 'hyd yn oed' a 'hefyd', gan fod yr ystyr yn gallu cael ei gymylu os nad ydynt yn y lle cywir yn y frawddeg. Dyma un enghraifft o hyn:

...and singing in groups or choirs has even been found...

...a bod canu mewn grwpiau neu gorau hyd yn oed yn gallu...

Mae gosod **'hyd yn oed'** ar ôl **'gorau'** yn creu amwysedd yn y frawddeg hon. Yn yr un modd, mae'n rhaid gofalu bod pob elfen wedi'i chynnwys yn y cyfieithiad i sicrhau bod yr ystyr yn gwbl gywir, ond yn anffodus cafodd sawl gair ei hepgor yn yr arholiad Sylfaenol y tro hwn, gan gynnwys *'alone', 'proponents', 'complete', 'physical' 'benefits', 'social', 'permanently' a 'disproportionately'*. Mae'r geiriau hyn yn hynod bwysig ac mae eu hepgor yn effeithio ar yr ystyr. Hefyd, defnyddiodd rhai ymgeiswyr y gair anghywir i gyfleu'r ystyr, er enghraifft: **'adlewyrchu'** (*exhalation*), **'preimo ein cyrff'** (*prime our bodies*), **'ffrwyno poen'** (*suppress pain*), **'aruthrol'** (*measurable*), **'gweddillion economaidd'** (*economic fallout*) ac **'alldafliaid'** (*fallout*). Mae'n hawdd edrych yn y geiriadur a dewis y gair cyntaf sydd yno, ond dylid oedi am ychydig i feddwl am wir ystyr y geiriau yn y cyd-destun i osgoi camgymeriadau fel hyn.

Yn ogystal, mae angen cymryd gofal wrth gyfieithu rhestr o eiriau o ran sut maent yn perthyn i'w gilydd. Er enghraifft, yn y frawddeg ganlynol, mae **'UK'** yn perthyn i bob elfen sy'n dilyn ond eto cyflwynwyd y cyfieithiad anghywir isod:

...Brexit has been a disaster for the UK's economy, society, and international standing.

...roedd Brexit yn drychinebus i economi'r DU, cymdeithas, a statws cenedlaethol.

Maes gramadegol a achosodd dipyn o anhawster i rai ymgeiswyr oedd treiglo, sy'n siomedig gan fod treiglo'n gywir yn rhan ganolog o waith cyfieithydd. Cafwyd enghreifftiau o beidio â threiglo ansoddair yn dilyn enw benywaidd, enghreifftiau o beidio â threiglo enw benywaidd ar ôl y fannod, a hyd yn oed enghreifftiau o dreiglo ansoddair ar ôl enw gwrywaidd. Roedd yn amlwg hefyd fod rhai'n ansicr ynghylch y rheolau treiglo wrth ddefnyddio berf gryno, megis: **'Gall closio pobl at ei gilydd' a 'wnaeth chwyddiant codi'n uwch'**.

Roedd y rhagenw anghywir wedi achosi i rai gamdreiglo weithiau, fel a ganlyn:

...canfuwyd bod buddion lu i'w gael...

...mae colled swyddi wedi'u hamlygu...

Wrth sôn am gywirdeb, rhaid tynnu sylw eto at gamgymeriadau sillafu, gan gynnwys ‘**corffol**’ (corfforol), ‘**Deyrnad**’ (Deyrnas), ‘**gosti**’ (gostio), ‘**mesuriadwy**’, ‘**tu hwn**’ (tu hwnt), ‘**maeth**’ (maith) yn ogystal â hepgor acenion mewn rhai geiriau. Cofier hefyd fod angen cywiro unrhyw lythrennau sy’n cael eu newid yn brif lythrennau yn awtomatig, fel sydd wedi digwydd yn ‘**o’r ymennydd l’r galon**’ a ‘**rhoi hwb l allu**’.

Mae’n amlwg bod gan lawer o’r ymgeiswyr hyn sgiliau cyfieithu da a bod sawl un yn agos at lwyddo. Fodd bynnag, mae’n bwysig mireinio’r sgiliau hyn ymhellach i gyrraedd y safon ofynnol. Gwallau esgeulus y gellir eu hosgoi a mynegiant chwithig oedd ar fai mewn sawl darn aflwyddiannus a thrwy ddarllen y cyfieithiad yn fanwl iawn buasai modd sicrhau bod y ddau ddarn yn cyrraedd yr un safon drwyddi draw. Hefyd anogir ymgeiswyr i ddarllen adroddiadau blaenorol y Dirprwy Arholwr sy’n tynnu sylw at wallau cyffredin a ffyrdd o gyfieithu’n naturiol ac yn glir.

I gloi, hoffwn ddiolch i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a’r Bwrdd Arholi Testun am fod mor barod eu cymorth.

Y Dirprwy Arholwr i’r Gymraeg
Mehefin 2026

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 3

Llwyddo: 0

Siomedig braidd yw gweld na lwyddodd yr un o'r tri ymgeisydd y tro hwn; serch hynny, y mae yma ambell fflach o addewid, a buasem yn annog yr ymgeiswyr i dalu sylw i'r pwyntiau a wnaed, ac i ddal ati i fireinio eu crefft.

Y beiau amlycaf a welwyd oedd crwydro'n rhy bell oddi wrth yr ystyr; nid bod neb yn gofyn am gyfieithu slafaidd, ond mae hepgor geiriau allweddol yn wall, a rhaid cadw cydbwysedd rhwng bod yn ddigon hyderus i newid trefn geiriau a brawddegau er mwyn cyfleu naws yn gywir, a cholli neu ystumio ystyr y gwreiddiol.

Mae'n galonogol mai prin yw'r gwallau sylfaenol yn y papurau, ond mae gormod o fân frychau yn britho'r gwaith i allu cyfiawnhau llwyddo'r ymgeiswyr y tro hwn.

DARN 1	
<u>Enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus:</u>	<u>Enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus:</u>
provide instant translation (darparu cyfieithu ar y pryd)	strong debates against (dadleuon cryf – 'arguments' sydd yn gywir yma)
secondary schools now offer fewer language options (mae llai o opsiynau iaith mewn ysgolion uwchradd)	number ('canran' sydd yn y gwreiddiol)
delay the onset of dementia symptoms (arafu ymddangosiad symptomau dementia)	no longer as straightforward as it once was (nad yw... mor gyfleus bellach). Rhy lac.
On balance (o bwyso a mesur popeth)	appearance of dementia symptoms (nid dyma ystyr 'ymddangosiad' yn y cyd- destun hwn)

DARN 2	
<u>Engbreifftau o gyfieithu llwyddiannus:</u>	<u>Engbreifftau o gyfieithu aflwyddiannus:</u>
used his inaugural lecture (defnyddiodd ei ddarlith agoriadol) this building can be regarded as distinctly Welsh (gellid dadlau ei fod yn adeilad gwirioneddol Gymreig) a simple, classical exterior (mewn dull clasurol syml)	At just 20 years old (yn ugain oed) – ‘just’ yn or-gyfieithu, ac y mae’r rhifolyn mewn geiriau yn y gwreiddiol. Peace Temple (‘the Temple of Peace’ yw’r Deml Heddwch) a sponsor from Wales (‘patron’ yn hytrach na ‘sponsor’ am ‘noddwr’ yma) utilised his opening lecture (defnyddiodd ei ddarlith agoriadol) the Lord Davies (dim angen y fannod) generation (‘cenedl’ sydd yn y gwreiddiol)

**Y Dirprwy Arholwr i’r Saesneg
Mehefin 2026**